



Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran
Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau
Datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

Arweiniad ar gyfer partneriaethau

Croesawn geisiadau gan bartneriaethau gan y gallant fod yn ffordd effeithiol o ddiwallu angen neu fynd i'r afael â phroblem. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth a chyfiawnhad clir o'r angen am y bartneriaeth, a sut y bydd hyn yn eich helpu i gyflawni'r canlyniad CCA.

Dylai 'mudiad arweiniol' gyflwyno'r cais i ni ar ran y bartneriaeth. Dyma'r mudiad a fydd yn rheoli'r prosiect. Mae'n rhaid i'r mudiad arweiniol fodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer CCA.

Os bydd mudiadau eraill yn y bartneriaeth yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar gyfer y prosiect ac yn cael eu talu o'r arian CCA, dylai'r mudiad arweiniol esbonio sut maent wedi cael eu dewis. Rydym yn disgwyl y bydd y mudiad arweiniol yn dilyn ei weithdrefnau cytunedig ar gyfer dod o hyd i nwyddau a gwasanaethau, dangos gwerth am arian a glynu wrth unrhyw ddeddfau Ewropeaidd perthnasol. Os nad yw proses tendro agored yn briodol mae angen i ni wybod pam, er mwyn i ni ystyried ai dyma'r ffordd fwyaf priodol o redeg y prosiect.

Os byddwn yn penderfynu ariannu'r prosiect, bydd ein tîm cyfreithiol yn adolygu ac yn cytuno i unrhyw gytundebau partneriaeth, a byddwn yn ymgymryd â chytundeb grant cyfreithiol rwymol gyda'r mudiad arweiniol. Mae'n rhaid i'r mudiad hwn dderbyn ein [hamodau a thelerau ariannu](#) ac fe fydd yn atebol i ni am sut mae'r holl arian yn cael ei wario.

Cytundebau partneriaeth

Un o'n hamodau a thelerau ariannu safonol yw na all y mudiad y bydd y cytundeb grant rhyngom ni ac ef is-gontractio unrhyw ran o'r prosiect i fudiadau eraill heb gael caniatâd ysgrifenedig gennym ni ymlaen llaw. Felly os byddwn yn dyfarnu ariannu cyn i'r prosiect ddechrau mae'n rhaid i ni gymeradwyo cytundeb partneriaeth rhwng y mudiad arweiniol a'r partneriaid. Peidiwch ag ymgymryd ag unrhyw gytundeb partneriaeth nes eich bod wedi derbyn cymeradwyaeth gennym ni. Os oes gennych gytundeb partneriaeth ar waith eisoes byddwn yn ei adolygu ac mae'n bosib y bydd angen ei newid.

Ym mhob achos mae'n rhaid i'r cytundeb partneriaeth sicrhau y gall y mudiad arweiniol fodloni ein holl amodau a thelerau ariannu, dilyn ein canllawiau brandio, darparu'r holl wybodaeth ariannol a monitro ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall y mae ei hangen arnom, a chyflwyno'r prosiect ar amser ac o fewn y gyllideb.

Mae'n rhaid i'r cytundeb partneriaeth estyn dros gyfnod sydd o leiaf mor hir â'n cytundeb grant gyda'r mudiad arweiniol ond mae'n rhaid iddo gynnwys darpariaeth hefyd sy'n caniatáu i'r mudiad ddod â hi i ben yn gynnar os bydd angen i ni ohirio neu derfynu'r ariannu.

Ym mhob achos mae'n rhaid i'r cytundeb partneriaeth gyfeirio at, neu gynnwys, ein hamodau a thelerau ariannu. Mae'n rhaid i'r cytundeb partneriaeth nodi hefyd y mai ein hariannu ni fydd â blaenoriaeth yn achos unrhyw wrthdaro rhwng dehongli ein hamodau a thelerau grant ni ac unrhyw rai eraill.

Ar gyfer y Gronfa hon ni fyddem yn disgwyl gweld cytundeb partneriaeth ar waith yn y cam ymgeisio ond byddwn eisiau gweld manylion y partneriaid arfaethedig a'r gwasanaethau y byddant yn eu cyflwyno, ond peidiwch â drafftio cytundeb cyn i chi dderbyn ariannu. Yna byddwn yn ei adolygu ac mae'n rhaid i chi gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gennym ni cyn y gellir dechrau ar y prosiect. Os oes cytundeb partneriaeth eisoes yn weithredol, bydd angen i ni wirio ei fod yn bodloni ein gofynion a gallai fod angen rhai newidiadau i sicrhau bod partneriaid yn gweithredu o dan ein hamodau a thelerau ariannu.

Beth ddylai cytundeb partneriaeth ei gynnwys?

Gan fod amrywiaeth helaeth o drefniadau partneriaeth yn weithredol a bod pob prosiect yn wahanol, ni allwn ddarparu arweiniad manwl. Argymhellwn fod partneriaethau'n ceisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain.

I helpu egluro'r hyn y mae angen ei gynnwys mewn cytundeb partneriaeth, awgrymwn fod y mudiad arweiniol yn astudio ein hamodau a thelerau ariannu safonol a phenderfynu pa rai ohonynt sy'n berthnasol i bob un o'r partneriaid sy'n ymwneud â chyflwyno'r prosiect. Bydd hyn yn helpu egluro beth mae angen ei gynnwys yn y cytundeb partneriaeth er mwyn galluogi'r mudiad arweiniol i fodloni ein holl amodau a thelerau.

Mae'n rhaid iddo gynnwys darpariaeth hefyd sy'n mynnu bod pob partner yn cyflwyno ar eu rhwymedigaethau o dan y cytundeb partneriaeth o dan ein hamodau a thelerau ariannu, i'r graddau eu bod yn berthnasol i natur y gwasanaethau y byddant yn eu darparu.

Dylai'r holl fudiadau yn y bartneriaeth astudio ein hamodau a thelerau ariannu'n ofalus hefyd a chytuno ar beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn eu cyflawni.

Rydym yn disgwyl i gytundebau partneriaeth ymdrin â'r pwyntiau canlynol:

Diben neu nod y bartneriaeth

Dylid esbonio hefyd sut mae nod y bartneriaeth yn gweddu i nod y prosiect.

Pwy yw'r mudiad arweiniol

Dylai fod yn eglur mai'r mudiad sy'n cyflwyno'r cais i ni yw'r mudiad arweiniol at ddibenion unrhyw grantiau a ddyfarnwn. Dylid cynnwys datganiad sy'n nodi mai'r mudiad arweiniol yn unig fydd yn atebol i ni o ran cyflwyno'r prosiect yn unol â'n hamodau a thelerau, ond dylid cynnwys cymal hefyd sy'n sicrhau bod y partneriaid wedi ymrwymo i'n hamodau a thelerau.

Manylion pob mudiad partner

Nodwch enwau a chyfeiriadau'r holl fudiadau sy'n ymrwymo i'r cytundeb. Dylech gynnwys manylion pobl gyswilt allweddol.

Trefniadau ariannol a chytundebol

Os bydd y mudiadau partner yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau fel rhan o'r prosiect, dylid cynnwys manylion yr hyn sydd i'w gyflwyno, pa mor aml, beth yw'r dull talu a phryd y bydd taliadau'n cael eu gwneud.

Ni allwn fod yn gyfrifol am daliadau i fudiadau partner. Y mudiad arweiniol sy'n gyfrifol am hyn. Dylech gynnwys datganiad sy'n nodi mai'r mudiad arweiniol fydd yn gyfrifol am yr holl arian a dderbynnir gennym ni ac na fydd modd iddo wneud taliadau i bartner nes ei fod wedi derbyn ein taliadau ariannu. Mae'n rhaid i'r mudiad arweiniol gadw cofnodion o'r holl wariant ar y prosiect, gan fedru darparu tystiolaeth o wariant i ni os gofynnwn amdani.

Rolau a chyfrifoldebau

Dylid esbonio prif rolau a chyfrifoldebau pob mudiad yn y bartneriaeth. Dylid egluro pa dasgau a gwasanaethau y bydd pob partner yn gyfrifol am eu cyflwyno.

Polisiau a gweithdrefnau

Dylid cynnwys pob un sy'n ofynnol o dan y gyfraith neu sy'n berthnasol i'r prosiect, megis iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.

Gweinyddiaeth, cyfarfodydd a chadw cofnodion

Dylid esbonio pwy sy'n gyfrifol am drefnu cyfarfodydd, pa mor aml y cânt eu cynnal a pha gofnodion a gaiff eu cadw.

Monitro ac adrodd

Dylid esbonio sut bydd gwybodaeth fonitro'n cael ei darparu gan y mudiadau partner drwy gydol cyfnod y cytundeb grant er mwyn galluogi'r mudiad arweiniol i gwblhau adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ein cyfer.

Cyfathrebu

Dylid egluro pa mor aml y caiff y prosiect ei drafod gan y bartneriaeth a thrwy ba ddulliau, er enghraifft, cyfarfodydd personol, dros y ffôn, e-bost. Dylid egluro hefyd pwy fydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r prosiect drwy'r cyfryngau a phwy fydd yn ymateb i ymholiadau.

Brandio

Mae'n rhaid i hyn gyfateb i'n canllawiau ni.

Recriwtio staff

Mae'n rhaid i hyn gyfateb i'n hamodau a thelerau ariannu.

Newidiadau i'r cytundeb

Dylid esbonio sut bydd newidiadau i'r cytundeb neu unrhyw anghydfod yn cael eu rheoli a'u datrys. Dylid cofio y gall anghydfod rhwng y partneriaid olygu na fydd modd, o bosib, i'r mudiad arweiniol fodloni amodau a thelerau ein ariannu.

Hyd y cytundeb

Dylai hyn gynnwys darpariaeth i'r mudiad arweiniol derfynu'r cytundeb os bydd angen i ni ohirio neu derfynu ein hariannu unrhyw bryd.

Ymagwedd at gynladwyedd

Dylid esbonio sut bydd buddion y bartneriaeth yn cael eu cynnal.

Llofnodi datganiad

Mae'n rhaid i bob partner lofnodi'r datganiad.